

Addasiadau i'r UG a'r Safon Uwch yn haf 2021

Llyfryn Gwybodaeth am Bynciau

Addasiadau i bynciau UG a Safon Uwch yn haf 2021

Mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru, mewn ymateb i gau'r ysgolion a cholegau dros dro ym mis Mawrth 2020, wedi cyhoeddi y bydd cymwysterau TAG yn cael eu haddasu i'w hasesu yn 2021. Bwriad hyn yw gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd a chynorthwyo'r canolfannau i gydymffurfio â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol.

Yn ei ddogfen reoleiddiol, [Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021](#), mae Cymwysterau Cymru wedi nodi egwyddorion clir (a ddyfynnir isod), a ddilynwyd gennym wrth addasu'r UG a Safon Uwch yn 2021. Bydd Cymwysterau Cymru yn monitro ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r addasiadau i bynciau UG a Safon Uwch unigol CBAC a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru i'w defnyddio gan ganolfannau yng Nghymru ac awdurdodaethau eraill, ac felly dylid ei darllen ar y cyd â dogfen Cymwysterau Cymru.

Cafodd yr addasiadau i bob pwnc eu llunio'n ofalus gan ddilyn egwyddorion Cymwysterau Cymru:

1. Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw dysgwyr yn cael mantais nac yn cael anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.
2. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod pob cymhwyster yn arwydd dibynadwy o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymhwyster yn dilyn unrhyw addasiadau i asesiadau.
3. Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw cynnwys cymwysterau, yn gyffredinol, yn cael ei leihau; fodd bynnag, gellir ailstrwythuro cynnwys fel y gellir ei symleiddio'n rhesymol, megis mewn perthynas ag unedau dewisol.
4. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hydrinedd asesiad yn cael ei gynyddu i'r eithaf, lle bydd hyn yn caniatáu cynnydd yn yr amser addysgu er mwyn lleihau'r effaith ar ganlyniadau.
5. - Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol.
6. Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg sydd ar gael gan CBAC a chan gyrff dyfarnu eraill.
7. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hyblygrwydd wrth ddarparu asesiadau yn cael ei gynyddu i'r eithaf er mwyn lleihau effaith aflonyddwch, salwch neu gwarantyn, gan gynnwys cyfyngiadau symud ar lefel leol.

Cyn penderfynu'n derfynol ar yr addasiadau hyn, ymgynghorwyd â chanolfannau yng Nghymru drwy gyfrwng grwpiau ffocws ac ymgynghoriad ar-lein byr. Gofynnwyd i'r canolfannau i ba raddau roeddent yn cytuno bod ein haddasiadau arfaethedig yn:

- cadw'r cynnwys a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer dilyniant i addysg uwch
- cynnal lefel y galw yn y cymhwyster
- peidio â rhoi mantais nac anfantais i ddysgwyr yng Nghymru o gymharu â dysgwyr mewn awdurdodaethau eraill
- helpu i leddfu materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol ar gyfer gwaith grŵp a gwaith ymarferol.

Derbyniwyd mwy na 1100 o ymatebion i'r arolwg, y mwyafrif ohonyn nhw'n dod gan athrawon y pwnc a phenaethiaid adrannau. Dadansoddwyd yr ymatebion a lle y bu angen gwneud hynny diweddarwyd ein haddasiadau arfaethedig i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd gan ganolfannau. Ni fu'n bosibl mynd i'r afael â phob un o'r pryderon a fynegwyd gan athrawon o ran yr amharu ar yr addysgu a dysgu gan fod rhaid i CBAC, yn fwy na dim, sicrhau uniondeb pob cymhwyster er mwyn gallu dyfarnu cymwysterau yn 2021 sy'n ddilys ac yn gadarn. Bydd CBAC yn ystyried y materion hyn yn ofalus wrth i ni geisio cynnal safonau wrth bennu ffiniau graddau yn ystod proses ddyfarnu cyfres haf 2021. Dylai'r addasiadau, felly, gael eu hystyried hefyd ynghyd â mesurau lliniaru eraill sydd ar gael i ganolfannau.

Er bod cytundeb bras â chyfeiriad ein haddasiadau, mynegodd llawer o ymatebwyr yr hoffent weld lleihau pellach ar yr asesu ar lefel UG ac Uwch. Yn flaenorol, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru **na fyddai angen** i ddysgwyr oedd yn sefyll unedau U2 yn 2021, a gofrestrwyd am unedau UG yn 2020 **sefyll eu hunedau UG yn 2021** (er y gallent ddewis gwneud hynny). Bydd eu gradd Safon Uwch derfynol yn seiliedig ar ganlyniadau'r unedau U2 yn unig, h.y. bydd dysgwyr yn derbyn canlyniad ar gyfer eu hunedau UG (a gofrestrwyd yn 2020) yn seiliedig ar eu hunedau U2 sydd i'w sefyll yn 2021. Mae hyn yn golygu bod yr asesiad 40% yn llai ar draws y cymhwyster Safon Uwch llawn i'r sawl sy'n cyfnewid yn 2021. Nod yr addasiadau isod felly yw symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn yr unedau U2 yn 2021, ond cadw'r un asesiad llawn o 60% sydd i'w gael yn yr unedau U2. Byddai lleihau mwy ar yr asesiad yn peryglu uniondeb y cymhwyster a gallai gael ei ystyried yn llai trylwyr na chymwysterau cyfatebol mewn awdurdodaethau eraill. Bydd cadw'r asesiad U2 llawn o 60% yn sicrhau bod y cymwysterau Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr yng Nghymru yn 2021, er eu bod ond yn seiliedig ar yr unedau U2, yn ddilys, dibynadwy ac yn gallu cael eu cymharu â'r cymwysterau Safon Uwch a ddyfernir i ddysgwyr mewn awdurdodaethau eraill. Ni chafodd y cymwysterau UG eu haddasu'n sylweddol ychwaith, gan nad yw dysgwyr i fod i gychwyn ar y cymwysterau hyn tan fis Medi ac felly ni chollwyd unrhyw amser addysgu eto ar lefel yr UG. Mae mân addasiadau wedi'u hystyried fodd bynnag i ysgafnhau'r pwysau o ran ymbellhau cymdeithasol yn yr UG a'r U2.

Mae natur eithriadol yn perthyn i'r Safon Uwch Celf a Dylunio gan ei fod yn gymhwyster ymarferol seiliedig ar sgiliau gyda 100% o Asesiad Di-arholiad. Gallai ymarferoldeb a chynghor iechyd y cyhoedd effeithio'n negyddol ar asesiadau yn y cymhwyster ymarferol hwn sy'n seiliedig ar sgiliau. Oherwydd hynny bydd canlyniadau Safon Uwch dysgwyr yn seiliedig ar ganlyniad asesiad yr un uned UG ac un uned U2 ychwanegol, sy'n ffurfio cyfanswm o 76% o'r cymhwyster cyfan. Mae sail resymegol llawn i'w gweld yng ngwybodaeth y pwnc.

Mae rhai cymwysterau (y rhai yn y gyfres Saesneg) lle na fu'n bosibl gwneud unrhyw addasiadau heb gyfaddawdu eu dilysrwydd. Oherwydd eu strwythur ychydig iawn o'r cynnwys y mae'n hawdd ei symleiddio oherwydd natur testunau neu ffurfiau gosod. Mater amhosibl hefyd yw cyflwyno unrhyw derfynau ar yr asesiadau heb wneud y cwestiynau'n anoddach i ddysgwyr ac amharu ar eu gallu i gyrraedd amrediad llawn y cynllun marcio. Fel y nodwyd yn flaenorol, rhoddir ystyriaeth i'r materion hyn yn ystod proses ddyfarnu cyfres haf 2021. Ewch i dudalennau 19 i 24 y ddogfen hon i weld sylwebaeth llawn ynghylch y syniadau a ystyriwyd ac a wrthodwyd yn y pendraw ar gyfer y cymwysterau TAG Saesneg.

Mynegai'r pynciau

TGCh a TGCh Cymhwysol
Celf a Dylunio
Bioleg/Cemeg/Ffiseg
Busnes
Cyfrifiadureg
Dylunio a Thechnoleg
Drama a Theatr
Economeg
Saesneg Iaith
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
Llenyddiaeth Saesneg
Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg
Daearyddiaeth
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Hen) Gradd Unigol
Hanes
Y Gyfraith
Mathemateg a Mathemateg Bellach
Astudio'r Cyfryngau
Cerddoriaeth
Addysg Gorfforol
Seicoleg
Astudiaethau Crefyddol
Cymdeithaseg
Cymraeg Iaith
Cymraeg Ail Iaith

TGCh Cymhwysol

UG

Uned 1: eFusnes Arholiad Ysgrifenedig 40% o'r cymhwyster UG 16% o'r Safon Uwch

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: eSgiliau asesiad dan reolaeth seiliedig ar senario 60% o'r cymhwyster UG 24% o'r Safon Uwch

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: eBroject Asesiad allanol wedi'i osod yn allanol (cymedroli mewnol) 24% o'r Safon Uwch

Ymdrinnir â'r senario cychwynnol a ddosberthir ym mis Medi 2020 (i'w gwblhau yn haf 2021) fel gweithgaredd dosbarth cyfan 'dan arweiniad yr athro' yn hytrach nag iddo fod yn rhywbeth i'w gwblhau gan nifer o grwpiau bach. Ar y cyd bydd y dosbarth yn llunio model taenlen i ymdrin â'r senario dan sylw. Bydd yr holl ddysgwyr wedyn yn defnyddio hyn wrth gwblhau'r gwaith unigol dan amodau rheoledig a ysgogir pan fydd y gofynion diwygiedig ar gael (gwanwyn 2021).

Uned 4/5/6: eStiwdio, eGod, eDrafod asesiad dan reolaeth 36% o'r Safon Uwch

Does dim newidiadau i'r unedau dewisol hyn.

Sail resymegol

Fel arfer, yn Uned 3, defnyddir cyfnod o waith grŵp yn arwain at ddatblygu model taenlen sy'n ymdrin â'r senario cychwynnol Rhyddheir y senario cychwynnol hwn yn wythnos gyntaf mis Medi fel arfer ac mae'n amlinellu set o ofynion i fod yn sail i'r model taenlen i'w lunio. Wedi hynny, bydd y grŵp yn gwneud y penderfyniadau a'r modelau taenlen yn cael eu llunio. Cofnodir y cyfarfodydd grŵp mewn cyfres o gofnodion a gymerir, ynghyd â'r model o daenlen cyflawn, i'r amgylchedd dan reolaeth. Yn y fan honno y bydd dysgwyr yn gweld y ddogfen 'Gofynion Diwygiedig' am y tro cyntaf. Yn y ddogfen 'Gofynion Diwygiedig' (i'w rhyddhau yn y gwanwyn) mae gofyn i'r dysgwr gynllunio a chreu swyddogaethedd ychwanegol (heb ei weld o'r blaen). Pob unigolyn sy'n cwblhau'r newidiadau i'r model ei hun, yn ôl cyfarwyddyd y gofynion diwygiedig. Mae angen i bob dysgwr fod yn gwbl gyfarwydd â'r model o daenlen grŵp er mwyn gallu newid y swyddogaethedd. Mae'n ofynnol hefyd i ddysgwyr weithio fel rheolwr project ar eu gweithgareddau er mwyn gallu hwyluso'r newidiadau gofynnol erbyn y terfyn amser penodol. Rhagwelir y bydd symud i ddull dosbarth cyfan dan arweiniad yr athro yn arbed cryn dipyn o amser. Sicrheir yr arbedion amser hyn yn bennaf drwy ddileu'r angen i fonitro a rheoli cyfres o grwpiau bach wrth ddatblygu'r modelau taenlen ac wrth baratoi ar gyfer yr asesiad unigol. Yn ôl y cynnig hwn bydd pob dysgwr yn cwblhau'r tasgau unigol gan ddefnyddio'r un model taenlen â gweddill y dosbarth. Dim ond am yr ymatebion unigol a gwblheir yn yr amgylchedd dan reolaeth y dyfernir marciau (yn ôl yr arfer) - does dim angen newid trefniadau'r amgylchedd dan reolaeth na'r tasgau a asesir. Gwneir newidiadau i'r ddogfen asesu a fydd yn cadarnhau'r newid hwn o'r dull grwpiau bach i'r dull dosbarth cyfan.

Ni thynnir unrhyw gynnwys o'r uned ar sail y cynnig hwn. Fodd bynnag, mae dynamig y grŵp yn newid o fod yn un o grwpiau bach i grŵp (dosbarth cyfan) mwy. Ni ddylai hyn olygu bod llai o ddatblygu o ran sgiliau TGCh gan fod angen i ddysgwyr ymgysylltu'n llawn â'r broses o

greu'r model cychwynnol o daenlen er mwyn gallu cyflawni'r asesiad unigol. Bydd rhai o'r gweithgareddau trefniadol yn llai, er enghraifft y creu cofnodion cyfarfod a'r profiad o weithio mewn grŵp bach.

Nid yw'r cynnig hwn yn newid lefel galw'r cymhwyster hwn – does dim newidiadau i'r tasgau a asesir nac i'r cynnwys.

Mae'n bosibl y bydd y cynnig i newid o grwpiau bach i un grŵp dosbarth yn helpu o ran yr ymbellhau cymdeithasol gan y gallai fod yn rhwyddach rheoli ystafell ddosbarth sydd wedi'i gosod ar gyfer dosbarth cyfan yn ddiogel nag y byddai cyfres o grwpiau llai.

TGCH

UG

Uned 1: Systemau Gwybodaeth Arholiad ysgrifenedig 24% (60%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Tasg Cyflwyno Gwybodaeth Asesiad Di-arholiad 16% (40%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Y Defnydd o TGCh a'i Heffaith Arholiad ysgrifenedig 36% o'r cymhwyster

Symleiddio cynnwys i'w asesu fel na fydd y meysydd cynnwys testun canlynol yn cael eu hasesu yn 2021, sy'n cyfateb i golli 10-15 ODA i gyd, ar draws y swyddogaethau gwahanol:

- 4.3.1 Rhwydweithiau – Dewis rhwydwaith ar gyfer cwmni, Topolegau rhwydwaith, Rhwydweithio diwifr
- 4.3.5 Polisiâu Diogelwch TGCh – Atal camddefnydd damweiniol, Atal troseddau neu gamddefnydd bwriadol
- 4.3.9 Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS) – Nodweddion Systemau Gwybodaeth Rheoli effeithiol, Deall y llif gwybodaeth rhwng cydrannau allanol a mewnol Systemau Gwybodaeth Rheoli, Nodweddion Systemau Gwybodaeth Rheoli da
- 4.3.10 Cylchred Oes Datblygu Systemau – Dylunio'r System, Gweithredu'r System, Cynnal a Chadw'r System, Gwerthuso'r System.

Uned 4 Project Cronfa Ddata Berthynol Asesiad Di-arholiad 24% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Bydd cynllun pob papur arholiad yr un peth â chyfresi blaenorol. Drwy symleiddio rhan leiaf o'r cynnwys i'w asesu yn 2021 ar lefel Safon Uwch fel hyn gall dysgwyr ymateb o hyd i'r cwestiynau synoptig ac mae'n caniatáu lleihau'r amser y mae ei angen i gyflwyno Uned 3.

Celf a Dylunio

UG Uned 1: Ymholiad Creadigol Personol Asesiad Di-arholiad (40%) o'r cymhwyster (Ar gyfer asesu Blwyddyn 12 yn haf 2021.)

Does dim newidiadau i gynnwys yr uned hon i'w asesu yn 2021 gan fod rheolaethau'n gyfyngedig. Hefyd, gellir cyflwyno'r uned hon dros gyfnod hir (Medi 2020 - Mai 2021) gan ddefnyddio dysgu/gwaith cyfunol.

U2

Uned 2: Ymchwiliad Personol Asesiad Di-arholiad (36%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i gynnwys yr uned hon i'w asesu yn 2021.

Uned 3: Aseiniad wedi'i osod yn allanol (Asesiad Di-arholiad) 24%

Ni asesir yr uned hon yn 2021.

Sail resymegol

Y bwriad yw peidio ag asesu'r **Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol (uned 3)**. Mae'r uned hon yn llai ac nid yw'r dysgwyr i fod i gychwyn arni cyn 2021. Byddai'n rhesymol disgwyl i ddysgwyr gwblhau'r gwaith sy'n weddill ganddynt ar yr UG (**Uned 1**) yn ystod hanner cyntaf tymor yr Hydref; (byddant eisoes wedi treulio chwe mis yn gweithio ar yr UG cyn y cyfnod clo); a bydd 6 mis a hanner arall ar gael i gwblhau gwaith o'r newydd ar yr Ymchwiliad Personol (uned 2) o fis Tachwedd 2020 i fis Mai 2021.

Bwriedir gwneud yr addasiad hwn fel bod modd i ganolfannau addasu eu rhaglenni astudio yn unol â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol; i helpu i wneud iawn am unrhyw amhariadau posibl pellach yn y dyfodol; ac i leddfu unrhyw faterion o ran logisteg ac iechyd a diogelwch o ran y prawf ymarferol 15 awr o hyd ar gyfer yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, y mae'n rhaid ei gyflawni dan amodau arholiad.

Mae rheolaethau Unedau 1 a 2 yn rhai cyfyngedig, a gellir cyflwyno'r cynnwys dros gyfnod hirach o amser. Dim ond cynnig yr asesiad mwyaf dibynadwy y mae'r dewis i asesu Unedau 1 a 2 oherwydd yr unedau hyn yw'r rhai mwy yn y cymhwyster. Defnyddir yr un Amcanion Asesu i'w mesur, gan roi'r dilystrwydd angenrheidiol felly, heb fod angen unrhyw newidiadau dros dro i safonau nac unrhyw newidiadau a allai fod yn rhai dryslyd. *Dylai gwaith **Uned 2**, mewn perthynas ag **Uned 1**, ddangos cynnydd amlwg yn nyfnder yr astudiaeth, fel y disgrifir ar dudalen 14 y Fanyleb.*

Drwy argymhell yr addasiad hwn mae'r elfennau ysgrifennu estynedig a lluniadu'r Ymchwiliad Personol sy'n ofynnol gan AB yn cael eu cadw. Mae hyn yn sicrhau felly y bydd dysgwyr yn gallu symud ymlaen o hyd i addysg uwch neu gyflogaeth.

Rydym yn cydnabod bod yr addasiad hwn yn wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan Cymwysterau Cymru ym mis Mawrth 2020 oedd yn nodi nad oedd disgwyl i ddysgwyr gwblhau unedau UG. Ond, er mwyn gallu dyfarnu Safon Uwch tair uned mewn modd y gellir dibynnu arno, mae angen i bob dysgwr gwblhau dwy o'r tair uned. Am resymau a nodwyd yn barod, mae'n well i ddysgwyr gwblhau uned 1 a 2 yn hytrach nag uned 3. Cymeradwyodd Cymwysterau Cymru y dull hwn fel yr addasiad sy'n fwyaf addas i'r dysgwyr.

UG Unedau 1 + 2: Arholiadau ysgrifenedig (40%)

Does dim newidiadau i asesiad yr unedau hyn.

Tynnu'r gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith ymarferol penodol eu hunain. Gellid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo ac efelychiadau yn lle hynny.

U2 Unedau 3 + 4: Arholiadau ysgrifenedig (50%)

Cwestiynau synoptig – ni fydd cynnwys UG nad yw'n cael ei ddatblygu nac yn ofynnol ar gyfer Unedau 3 a 4 yn cael ei asesu yn 2021.

Tynnu'r gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith ymarferol penodol eu hunain. Gellid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo ac efelychiadau yn lle hynny.

U2 Uned 5: Arholiad Ymarferol (10%)

Tynnu'r Dasg Arbrofol o'r asesiad yn 2021. Byddai'r rhan Tasg Dadansoddi Ymarferol yn aros yn 2021.

Sail resymegol

Oherwydd y mesurau ymbellhau cymdeithasol, mae'n anodd i ddysgwyr gyflawni'r gwaith ymarferol sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith ymarferol penodol (ac amrywiol dasgau ymarferol eraill) eu hunain ac i gwblhau'r rhan Tasg Arbrofol yn arholiad ymarferol Uned 5. Mae tynnu'r gofyniad i'r ymgeiswyr gwblhau unrhyw waith ymarferol eu hunain yn lleihau'r amser addysgu. Bydd angen defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo, efelychiadau ac adnoddau priodol eraill i ddarparu profiad sylfaenol o ddulliau ymarferol perthnasol. Mae asesiad Uned 5 yn allweddol i asesiad y cymhwyster, ac felly penderfynwyd cadw'r Dasg Dadansoddi Ymarferol. Efallai y bydd gan nifer o ddysgwyr fylchau o ran y cynnwys UG a addysgwyd iddynt ym Mlwyddyn 12. I wneud iawn am hyn, ni fydd y cwestiynau synoptig yn yr U2, unedau 3 a 4, yn defnyddio gwybodaeth UG nad yw'n cael ei datblygu nac yn ofynnol ar gyfer yr unedau U2.

Busnes

UG

Uned 1: Cyfleoedd Busnes Arholiad Ysgrifenedig 15% (37.5%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Swyddogaethau Busnes Arholiad Ysgrifenedig 25% (62.5%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Dadansoddi Busnes a Strategaeth Busnes Arholiad Ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Symleiddio cynnwys i'w asesu fel na fydd y 6 maes cynnwys testun canlynol yn cael eu hasesu yn 2021, sy'n cyfateb i golli 10-15 ODA i gyd:

- Elastigedd pris ac incwm y galw
- Amrywiannau cyllideb
- Fframwaith Pum Grym Porter
- Rhesymoli
- Coed Penderfyniadau
- Gwerthuso buddsoddiad.

Uned 4 Busnes mewn Byd sy'n Newid Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Mae Uned 4 yn aros yr un fath, gan ei bod yn uned gyfannol ac yn canolbwyntio ar gysylltu'r tair uned arall. Mae ei hangen er mwyn i ddysgwyr allu ateb y cwestiynau synoptig yn yr asesiad ac i gynnal lefel y galw ar gyfer y cymhwyster. Uned 3 yw'r uned yn y Safon Uwch lle mae'r holl gynnwys ac mae ynddi amrywiaeth eang o ddulliau dadansoddi busnes a strategaeth. Mae sawl agwedd ar y cynnwys yn gweithio'n annibynnol ac ni fyddai peidio ag addysgu'r rhain yn effeithio llawer ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol i'r dysgwyr allu ateb cwestiynau synoptig. Cynnwys sy'n gweithio'n annibynnol yw'r holl gynnwys y teimlwyd y gellid peidio â'i asesu yn haf 2021. Mae digon o gynnwys ar ôl i allu gwneud asesiad diliys a dibynadwy o'r sgiliau meintiol.

Cefnogodd y grŵp ffocws athrawon symleiddio'r cynnwys Uned 3 i'w asesu yn 2021.

Cyfrifiadureg

UG

Uned 1: Hanfodion Cyfrifiadureg

Arholiad ysgrifenedig 25% (62.5%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Rhaglennu Ymarferol i Ddatrys Problemau

Arholiad ar-sgrin 15% (37.5%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Rhaglennu a Datblygu Systemau

Arholiad ysgrifenedig 20% o'r cymhwyster

Symleiddio cynnwys i'w asesu fel nad yw'r meysydd cynnwys testun penodol canlynol (is-benawdau yn y golofn ar y chwith yn y fanyleb) yn cael eu hasesu yn 2021, yn cyfateb i golli 10-15 ODA i gyd (gydag Uned 4):

- 6. Dylunio systemau
- 8. Llunio rhaglenni.

Uned 4 Saernïaeth Gyfrifiadurol, Data, Cyfathrebu a Rhaglenni

Arholiad ysgrifenedig 20% o'r cymhwyster

Symleiddio cynnwys i'w asesu fel nad yw'r meysydd cynnwys testun penodol canlynol (is-benawdau yn y golofn ar y chwith yn y fanyleb) yn cael eu hasesu yn 2021, yn cyfateb i golli 10-15 ODA i gyd (gydag Uned 3):

- 1. Caledwedd a chyfathrebu - Mewnbwn / allbwn, rhwydweithio
- 6. Y system weithredu – Rheoli cof a byffro, Trefnlennu
- 7. Yr angen am fathau gwahanol o systemau meddalwedd a'u priodoleddau – Systemau'n ymwneud â diogelwch, Systemau rheoli, Systemau arbenigo.

Uned 5 Rhaglennu Datrysiad i Broblem

Arholiad ysgrifenedig 20% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Drwy symleiddio cynnwys na fydd yn cael ei asesu yn 2021 gall canolfannau wneud addasiadau oherwydd yr amser addysgu a dysgu a gollwyd o ganlyniad i'r achos Covid 19. Bydd cynllun pob papur arholiad yr un peth â chyfresi blaenorol. Drwy symleiddio rhan leiaf o'r cynnwys i'w asesu yn 2021 ar lefel Safon Uwch fel hyn gall dysgwyr ymateb o hyd i'r cwestiynau synoptig ac mae'n caniatáu lleihau'r cyfnod cyflwyno i'r un graddau ar gyfer y ddwy uned arholiad ysgrifenedig.

Dylunio a Thechnoleg

Dylunio Peirianyddol Ffasiwn a Thecstilau Dylunio Cynnyrch

UG

Uned 1: Arholiad Ysgrifenedig: 20% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Tasg dylunio a gwneud: 20% o'r cymhwyster

Byddwn yn derbyn model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – byddwn yn derbyn toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos yr holl fanylion llunio. Bydd hyn yn caniatáu i ganolfannau dreulio llawer llai o amser ar yr asesiad di-arholiad na'r hyn a awgrymir yn y fanyleb. Mae rhwydd hynt gan ddysgwyr i gyflwyno'r cynnyrch gorffenedig yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Safon Uwch

Uned 3: Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 4: Project dylunio a gwneud: 30% o'r cymhwyster

Byddwn yn derbyn model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – byddwn yn derbyn toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos yr holl fanylion llunio. Bydd hyn yn caniatáu i ganolfannau dreulio llawer llai o amser ar yr asesiad di-arholiad na'r hyn a awgrymir yn y fanyleb. Mae rhwydd hynt gan ddysgwyr i gyflwyno'r cynnyrch gorffenedig yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Hefyd, gall dysgwyr ddewis datblygu projectau a ddechreuwyd ar gyfer yr UG yn 2020 a'u cyflwyno ar gyfer Uned 4.

Sail resymegol

Gwerthfawrogn y gall materion ymbellhau cymdeithasol effeithio ar y mynediad i stiwdios a gweithdai dylunio sydd ar gael i ddysgwyr. Ond, mae'r gweithgareddau dylunio a gwneud yn un o nodweddion hanfodol y pwnc, ac yn agwedd y mae dysgwyr yn amlwg yn ei mwynhau ac yn llwyddo ynddi. Gall dysgwyr gyflawni agweddau ar eu gwaith ymchwil, dylunio a gwerthuso i fwrdd o'r stiwdio/gweithdy dylunio er mwyn lliniaru rhywfaint ar y materion mynediad a nodir uchod.

Mae'r disgwyliad ar ddysgwyr i gyflwyno cynnyrch/prototeip terfynol wedi'i wneud yn llai erbyn hyn ac rydym yn caniatáu model/brasfodel. Dylai hyn leddfu'r pryderon a nodwyd gan lawer o ran ymbellhau cymdeithasol. Adolygir yr union ddisgwyliadau o ran canlyniad y cynnyrch/brasfodel a bydd CBAC yn llunio canllawiau i'r athrawon ac yn eu rhannu â'r canolfannau yn ystod mis Medi.

Yn ogystal, ar lefel safon Uwch bwriadwn, dros dro, dynnu'r cyfyngiad canlynol: *'Nid oes hawl gan ymgeiswyr safon Uwch i ailgyflwyno unrhyw waith o'r dasg dylunio a gwneud UG (Uned 2), gan ei ddefnyddio fel man cychwyn nac estyn y gwaith i fynd i'r afael â gofynion y project dylunio a gwneud Uwch (Uned 4).'* Byddai hyn wedyn yn golygu bod modd i ddysgwyr sy'n sefyll eu safon Uwch yn haf 2021 ddatblygu ymhellach ar eu gwaith y bwriadwyd ei gyflwyno fel Asesiad Di-arholiad Uned 2 yn 2020 i'w ddefnyddio fel gwaith sy'n bodloni gofynion Asesiad Di-arholiad Uned 4.

Gwnaethom ystyried a fyddai'n well addasu Uned 3 yn hytrach nag Uned 4. Ond, mae angen y cynnwys ar gyfer dilyniant i Addysg Uwch a chyflogaeth.

Drama a Theatr

UG

Uned 1: Gweithdy Theatr (24%)

Lleihau maint lleiaf grŵp i 1 actor. Byddai hyd addas yn seiliedig ar feintiau grwpiau eraill rhwng 2 a 4 munud.

Hefyd, lleihau'r amser lleiaf i grwpiau o 2 i 5 actor gan ddau funud. Felly, dylai grŵp o 2 actor berfformio am rhwng 3 a 10 munud, dylai grŵp o 3 actor berfformio am rhwng 5 a 12 munud, dylai grŵp o 4 actor berfformio am rhwng 7 ac 14 munud a dylai grŵp o 5 actor berfformio am rhwng 9 ac 16 munud.

Uned 2: Testun mewn Theatr (16%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Testun ar Waith (36%)

Lleihau maint lleiaf grŵp i 1 actor ar gyfer y darnau wedi'u dyfeisio a'r darnau testun. Byddai hyd addas yn seiliedig ar feintiau grwpiau eraill rhwng 2 a 4 munud.

Hefyd, lleihau'r amser lleiaf i grwpiau o 2 i 5 actor gan ddau funud. Felly dylai grŵp o 2 actor berfformio am rhwng 3 a 10 munud, dylai grŵp o 3 actor berfformio am rhwng 5 a 12 munud a dylai grŵp o 4 berfformio am rhwng 7 ac 14 munud

Lleihau nifer y geiriau a awgrymir ar gyfer yr adroddiad proses a gwerthuso o 3000 o eiriau i 2000 o eiriau.

Uned 4: Testun mewn Perfformiad (24%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Byddai caniatáu i ddysgwyr berfformio monologau yn golygu ei bod yn bosibl iddynt weithio'n unigol yn yr ystafell ddosbarth a gartref. Byddai canolfannau yn ei chael yn haws cydymffurfio â chanllawiau iechyd y cyhoedd o ran rhoi mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith a gallai dysgwyr baratoi gwaith yn unigol heb ddibynnu ar eraill.

Mae lleihau'r isafswm amser sydd ar gael ar gyfer perfformiadau grŵp yn Unedau 1 a 3, a'r newidiadau arfaethedig i'r nifer o eiriau yn Uned 3, yn gwneud iawn am unrhyw amhariad a allai ddeillio o gyfnodau clo lleol neu gyfnodau o hunanynysu.

Bydd CBAC hefyd yn ystyried proses asesu Uned 3 ar gyfer 2021 er mwyn lliniaru ymhellach y senarios hyn. Bydd CBAC yn rhannu arweiniad pellach â'r canolfannau maes o law.

Bydd CBAC yn hyblyg y flwyddyn nesaf o ran y ffordd mae canolfannau'n dehongli ymarferwyr/cwmnïau theatr penodol gan na fydd yn bosibl i actorion fod yn agos at ei gilydd. Yr hyn sy'n allweddol yw bod y canolfannau'n llwyddo i gyfleu ysbryd neu anian yr ymarfer/cwmni o'u dewis yn eu perfformiadau. Atgoffir canolfannau hefyd na chosbir dysgwyr am fynd dros y terfyn geiriau ar gyfer yr adroddiad proses a gwerthuso yn Uned 3.

Economeg

UG

Uned 1: Cyflwyniad i Egwyddorion Economaidd Arholiad ysgrifenedig 15% (37.5%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Economeg ar Waith Arholiad ysgrifenedig 25% (62.5%) o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Archwilio Ymddygiad Economaidd Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Uned 4: Gwerthuso Modelau a Pholisïau Economaidd Arholiad ysgrifenedig 30% o'r cymhwyster

Symleiddio cynnwys i'w asesu fel na fydd y 3 maes cynnwys testun canlynol yn cael eu hasesu yn 2021:

- Polisi Cystadleuaeth a Phreifateiddio
- Sefydlogrwydd Ariannol
- Yr Undeb Ewropeaidd

Sail resymegol

Ar gyfer U2, testunau annibynnol yw'r ddwy agwedd ar gynnwys macroeconomaidd yr awgrymir eu tynnu. Nid ydynt felly yn effeithio ar ddadansoddi macroeconomaidd synoptig ehangach. Penderfynwyd bod yr un testun microeconomaidd a nodwyd yn addas gan ei bod yn annhebygol y byddai'r canolfannau wedi trafod y testun hwn eto gan ei bod ond yn bosibl gwneud hynny ar ôl addysgu gweddill y cynnwys microeconomaidd U2. Tua 10-15 o oriau dysgu dan arweiniad sydd dan sylw o ran symleiddio'r cynnwys.

Cefnogodd y grŵp ffocws athrawon symleiddio'r cynnwys U2 ar gyfer asesiadau yn 2021.

Saesneg Iaith a Llenyddiaeth

Does dim newidiadau i'r asesiadau UG na Safon Uwch Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

Sail resymegol

Bwriad y sail resymegol hon yw egluro i athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach pam nad yw'r asesiadau TAG Saesneg Iaith a Llenyddiaeth yn cael eu haddasu, er mwyn cynnal yr egwyddorion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru.

Cymwysterau seiliedig ar sgiliau yw'r cymwysterau UG a Safon Uwch sy'n adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig o gyfnodau gwahanol, gan gynnwys chwe gwaith gosod dros ddwy flynedd yr astudiaeth. Ni ellir tynnu unrhyw gynnwys a byddai symleiddio manyleb y mae gweithiau gosod yn sylfaen i'w hastudiaeth wedi cyfaddawdu'r cymwysterau. Dyfnder gwybodaeth y dysgwyr y bydd unrhyw golled amser addysgu hyd yn hyn yn effeithio arno yn y pendraw. Bwriadwn felly gefnogi'r athrawon wrth iddynt fynd ati i baratoi eu dysgwyr ar gyfer cyfres haf 2021 drwy gynnig calendr o ddigwyddiadau hyfforddi misol rhad ac am ddim sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu (digwyddiadau Teachmeet).

Bwriad y fanyleb hon yw galluogi athrawon a dysgwyr i feithrin y sgiliau angenrheidiol i ddadansoddi'n ieithyddol ac yn llenyddol wrth astudio amrywiaeth o destunau llafar ac ysgrifenedig. Er y gallai'r dysgu ym mis Medi 2020 fod yn arafach yn dechrau, ni ddechreuwyd addysgu'r UG eto ac ychydig o effaith fydd yna ar y dysgwyr hyn. Ar gyfer dysgwyr U2, gan nad yw'n bosibl tynnu cyfran o ddarn o ryddiaith neu destun drama i'w astudio, byddai gwneud unrhyw newidiadau i gynnwys asesiadau haf 2021 yn anafanteisiol i'r dysgwyr o ran meithrin y wybodaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol iddynt eu cael.

Byddai gwneud unrhyw addasiadau hefyd yn cyfaddawdu'r wybodaeth am y lefelau iaith gwahanol sy'n ofynnol. Gan nad oes cynnwys penodol o ran astudio seineg, ffonoleg a mydryddiaeth, geireg a semanteg, gramadeg (gan gynnwys morffoleg yn y Safon Uwch), pragmateg a disgwrs yn yr UG neu Safon Uwch, byddai'n effeithio'n negyddol ar ddilysrwydd y cymhwyster gan ei bod ond yn bosibl gwneud addasiadau i'r asesiad. Ni fyddai'n cael unrhyw fudd o ran amser addysgu a dysgu.

Yn Uned 3, ni ellir tynnu testun cyfan neu ran o destun gan y byddai gwneud hynny'n cyfaddawdu asesiad y cymhwyster. Mae'r un peth yn wir am Adran B Uned 4. Yn Adran A Uned 4, mae pwysoli dwbl yn perthyn i'r amcan asesu ar gyfer gwneud cysylltiadau (AA4) gan gyfrif am hanner y marciau sydd ar gael am y rhan hon o'r asesiad. Byddai symleiddio'r adran hon drwy dynnu'r darn iaith lafar er enghraifft, yn cyfyngu ar y cyfleoedd i wneud cysylltiadau. Byddai'n golygu hefyd na fyddai dysgwyr cyfres haf 2021 yn cael eu hasesu ar iaith lafar yn ystod dwy flynedd yr astudiaeth. Byddai unrhyw addasiad posibl arall i'r rhan hon o Uned 3 yn gwneud mwy na'r hyn y gofynnodd y rheoleiddwyr amdano.

Credai'r rhan fwyaf o'r athrawon, oherwydd ei natur annibynnol, bod gwaith yr uned hon yn rhywbeth y gallai'r dysgwyr ei reoli'n llwyddiannus o bell. Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau'n dechrau paratoi dysgwyr ar gyfer yr uned hon ar ddiwedd Blwyddyn 12. Uned 5 hefyd yw'r unig gyfle a geir i asesu AA5 ar draws y cymhwyster UG ac U2 i'r sawl sy'n cofrestru yng nghyfres haf 2021. Nid yw felly'n bosibl addasu na symleiddio'r rhan hon o'r Asesiad Di-arholiad. Roedd yr athrawon y trafodwyd â nhw mewn grŵp ffocws yn rhan o'r gwaith o ystyried yr addasiadau ar gyfer 2021 yn unfrydol y dylid cadw'r Asesiad Di-arholiad. Mae'n syml i ddysgwyr ymgymryd â'r astudiaeth annibynnol o bell yn ystod tymor haf 2020 a thu hwnt, os bydd angen.

Byddai unrhyw newidiadau a wneir i gynnwys neu asesiad cyfres haf 2021 yn andwyol i ddatblygiad y wybodaeth a'r sgiliau y mae gofyn i ddysgwyr eu cael. Mae angen cadw'r marciau a'r ymdriniaeth â'r AA er mwyn caniatáu cynnal safonau dros amser wrth ddyfarnu'r cymwysterau. Felly, nid yw addasiadau a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar amser addysgu yn rhai amlwg.

Saesneg Iaith

Does dim newidiadau i'r asesiadau UG na'r Safon Uwch Saesneg Iaith.

Sail resymegol

Bwriad y sail resymegol hon yw egluro i athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach pam nad yw'r cymwysterau TAG Saesneg Iaith yn cael eu haddasu, er mwyn cynnal yr egwyddorion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru.

Asesiadau synoptig o gwricwlwm sbiral yw'r UG a'r U2 heb lawer o gynnwys penodol. Oherwydd hynny, ychydig iawn y byddai unrhyw addasiadau i arholiadau'r naill gymhwyster a'r llall yn effeithio ar yr amser addysgu. Dyfnder gwybodaeth y dysgwyr y bydd unrhyw golled amser addysgu hyd yn hyn yn effeithio arno yn y pendraw. Bwriadwn felly gefnogi'r athrawon wrth iddynt fynd ati i baratoi eu dysgwyr ar gyfer cyfres haf 2021 drwy gynnig calendr o ddigwyddiadau hyfforddi misol rhad ac am ddim sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu (digwyddiadau Teachmeet).

Asesiadau seiliedig ar sgiliau yw'r unedau UG ac U2, yn bennaf holi data, dehongli, dadansoddi, gwerthuso, synthesis a myfyrio. Byddai addasu asesiad y sgiliau hyn mewn unrhyw ffordd yn effeithio'n andwyol ar yr ymdriniaeth â'r amcanion asesu ac yn effeithio ar y ffaith a yw'r cymwysterau'n ddibynadwy o ran dangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymwysterau, sy'n un o ofynion y rheoleiddwyr.

Bwriad y fanyleb yw galluogi athrawon a dysgwyr i ddilyn y diddordebau sydd ganddynt wrth feithrin eu sgiliau ym mhob un o'r unedau lle cânt eu cyflwyno i gysyniadau a dulliau disgyblaethau iaith/ieithyddiaeth Saesneg mewn perthynas ag amrywiaeth eang o ffurfiau llafar ac ysgrifenedig yr iaith honno. Mae hyn yn cynnwys ffurfiau electronig ac amlfodd. Gan nad oes cynnwys penodol i'w astudio yn yr UG na'r Safon Uwch, byddai'r effaith ar ddylsyrwydd y cymhwyster yn un negyddol gan y gellid ond addasu'r asesiad. Gan fod angen cadw'r marciau a'r ymdriniaeth â'r AA fel y gellir cynnal safonau dros amser wrth ddyfarnu'r cymwysterau, nid yw addasiadau a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar amser addysgu yn rhai amlwg. Er enghraifft, ni fyddai'n ddymunol rhyddhau ymlaen llaw unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r arholiadau, fel thema/genre/awdur wedi'i enwi neu destun penodol heb gyflwyno'r perygl y bydd dysgwyr yn ailadrodd deunydd a ddysgwyd ymlaen llaw yn yr arholiad heb ystyried a yw'n addas i'r cwestiwn ai peidio.

Gan ystyried pa mor eang yw'r corpws sydd ar gael i ddewis deunydd heb ei weld o'r blaen yn y TAG Saesneg Iaith, mae'n amhosibl darparu manylion i ganolfannau a fyddai'n ddefnyddiol iddyn nhw wrth baratoi dysgwyr heb enwi'r testun ei hun. Gallai hyn arwain at ddysgwyr yn gwastraffu eu hamser yn darllen cymaint o ddeunydd yn y categori eang hwn ag y gallent neu gael eu camarwain drwy ymgymryd ag ymchwil cyd-destunol neu fywgraffyddol amherthnasol. Does dim angen hyn o gwbl ar gyfer yr asesiad hwn.

O ran Saesneg Iaith, ychydig iawn o wahaniaeth a fyddai i'r amser addysgu pe byddai CBAC yn rhyddhau unrhyw fanylion ymlaen llaw o ran y testunau i'w dadansoddi yn Uned 4 Adran A. Does dim angen dadansoddi'r testun yn nhermau'r cyfrwng neu'r genre. Asesiadau synoptig yw'r rhain a chymhwyso ehangder gwybodaeth ieithyddol yw'r hyn a addysgir ar lefel Safon Uwch.

Mae hyn yn wir hefyd o ran cyflwyno cwestiynau dewisol yn yr Iaith; nid yw'r corpws eang o wybodaeth ieithyddol sy'n sail i'r ffordd mae dysgwyr yn mynd i'r afael â thestunau heb eu gweld yn newid waeth beth yw'r deunydd sydd o'u blaenau yn yr arholiadau. Ychydig iawn y bydden nhw ar eu hennill felly o ran yr amser addysgu.

Wrth ystyried y cynnig hwn, barn athrawon oedd bod yr ymchwil annibynnol sy'n ofynnol yn Uned 5, yr asesiad dan reolaeth, yn rhywbeth y gallai dysgwyr ei gyflawni o bell yn llwyddiannus gyda rhywfaint o gyfarwyddyd yr athro. Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau'n tywys y dysgwyr drwy'r astudiaeth annibynnol (drafftio teitl a rhagdybiaeth; casglu corpws o ddata; drafftio dadansoddiad) ar ôl i'r arholiadau UG ddod i ben. Roedd yr athrawon y trafodwyd â nhw mewn grŵp ffocws yn rhan o'r gwaith o ystyried yr addasiadau ar gyfer 2021 yn unfrydol y dylid cadw'r Asesiad Di-arholiad. Mae'n syml i ddysgwyr ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol o bell yn ystod tymor haf 2020 a thu hwnt, os bydd angen. Awgrymir os bydd yr addysgu a'r dysgu'n arafach na'r arfer yn cychwyn ym mis Medi bod canolfannau'n canolbwyntio ar ddatblygu'r Asesiad Di-arholiad.

Llenyddiaeth Saesneg

Does dim newidiadau i'r asesiadau UG na Safon Uwch Llenyddiaeth Saesneg.

Sail resymegol

Bwriad y sail resymegol hon yw egluro i athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach pam y penderfynwyd peidio â gwneud unrhyw addasiadau i'r cymhwyster TAG Llenyddiaeth Saesneg, er mwyn cynnal yr egwyddorion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru.

Cymwysterau seiliedig ar sgiliau yw'r UG a'r Safon Uwch lle mae gofyn astudio testunau gosod yn fanwl. Ni ellir tynnu unrhyw gynnwys a byddai symleiddio manyleb y mae gweithiau gosod yn sylfaen i'w hastudiaeth wedi cyfaddawdu'r cymwysterau. Dyfnder gwybodaeth y dysgwyr y bydd unrhyw golled amser addysgu hyd yn hyn yn effeithio arno yn y pendraw. Bwriadwn felly gefnogi'r athrawon wrth iddynt fynd ati i baratoi eu dysgwyr ar gyfer cyfres haf 2021 drwy gynnig calendr o ddigwyddiadau hyfforddi misol rhad ac am ddim sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu (digwyddiadau Teachmeet).

Byddai addasu asesiad y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y fanyleb hon mewn unrhyw ffordd yn effeithio'n andwyol ar yr ymdriniaeth â'r amcanion asesu. Byddai'n effeithio hefyd ar p'un a fyddai'r UG ac U2 yn ddibynadwy wrth ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymwysterau, sy'n un o'r gofynion rheoleiddiol.

Bwriad y fanyleb yw galluogi athrawon a dysgwyr i feithrin y sgiliau angenrheidiol i ddadansoddi'n llenyddol wrth astudio amrywiaeth o destunau gosod. Ni chafodd unrhyw addasiadau i'r UG eu hystyried gan na chollwyd unrhyw amser eto wrth gyflwyno'r cymhwyster hwn. Nid yw'n bosibl ar lefel U2 i dynnu rhan o ddarn o ryddiaith neu destun drama i'w astudio.

Y sawl sy'n cyflwyno'r fanyleb sy'n penderfynu ar nifer y cerddi i'w hastudio yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer yr uned barddoniaeth yn yr U2, ac mae rhestr benodedig o gerddi ar waith yn barod ar gyfer y cwestiwn rhan (i) yn Adran A, lle mae rhestr o'r fath yn berthnasol. Ni ellir dewis golygu'r testunau hyn ymhellach gan fod dau o'r pum testun gosod yn gerddi naratif estynedig, ac nid yw'n bosibl eu golygu. Byddai unrhyw addasiad arall i'r adran hon yn Uned 3 yn mynd y tu hwnt i ganllawiau'r rheoleiddwyr. Tasg barddoniaeth heb ei gweld yw Adran B yr un papur, ac mae'n amhosibl bron symleiddio cynnwys honno. Wynebwyd problemau tebyg wrth geisio addasu Uned 4 ac Uned 5. Ni ellir tynnu testunau cyfan neu ran o destun gan y byddai gwneud hynny'n cyfaddawdu uniondeb y cymhwyster.

Credai athrawon, oherwydd ei natur annibynnol, bod gwaith Uned 5 yn rhywbeth y gallai'r dysgwyr ei reoli'n llwyddiannus o bell. Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau'n dechrau paratoi dysgwyr ar gyfer yr uned hon ar ddiwedd Blwyddyn 12. Roedd yr athrawon y trafodwyd â nhw mewn grŵp ffocws yn rhan o'r gwaith o ystyried yr addasiadau ar gyfer 2021 yn unfrydol y dylid cadw'r Asesiad Di-arholiad. Mae'n syml i ddysgwyr ymgymryd â'r astudiaeth annibynnol o bell yn ystod tymor haf 2020 a thu hwnt, os bydd angen.

Byddai gwneud unrhyw addasiadau i gyfres arholiadau haf 2021 yn andwyol i ddatblygiad y wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen ar ddysgwyr. Mae angen cadw'r marciau a'r ymdriniaeth â'r AA er mwyn caniatáu cynnal safonau dros amser wrth ddyfarnu'r cymwysterau. Felly, nid yw addasiadau a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar amser addysgu yn rhai amlwg.

Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg

UG Uned 1 Siarad (Asesiad Di-arholiad)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

UG Uned 2 Gwrando, Darllen, Cyfieithu ac Ysgrifennu Beirniadol

Does dim newidiadau i'r uned hon.

U2 Uned 3 Siarad – Project Ymchwil Annibynnol (Asesiad Di-arholiad)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

U2 Uned 4 Gwrando, Darllen a Chyfieithu

Ni asesir yr is-themâu canlynol yn uniongyrchol yn yr uned hon yn haf 2021:

- Ffrangeg – Ôl-ffeithiau ar gyfer Ffrainc heddiw (Thema 4)
- Almaeneg – Cydlynid cymdeithasol yn yr Almaen heddiw (Thema 4)
- Sbaeneg – Cyfoethogi Diwylliannol a Dathlu Gwahaniaeth (Thema 3).

U2 Uned 5

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Nod y sail resymegol hon yw egluro wrth athrawon, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach pam y dewiswyd yr addasiadau hyn ar gyfer cymwysterau TAG Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg, yn unol ag egwyddorion a bennwyd gan Cymwysterau Cymru.

Asesiadau synoptig a seiliedig ar sgiliau yw'r cymwysterau UG a Safon Uwch. Byddai addasu asesiad y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y fanyleb hon mewn unrhyw ffordd yn effeithio'n andwyol ar yr ymdriniaeth â'r amcanion asesu.

Wrth ystyried sut byddai'n bosibl addasu ar gyfer 2021, nodwyd gan yr athrawon a dderbyniodd wahoddiad i fod yn rhan o'n grwpiau ffocws bod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn dechrau astudio'n annibynnol ar gyfer Uned 3 ar ôl gorffen yr arholiadau UG. Roedd y grŵp ffocws yn unfrydol na ddylid addasu'r Asesiad Di-arholiad gan ei fod yn fater syml i ddysgwyr ymgymryd â gwaith ymchwil annibynnol o bell yn ystod tymor yr haf 2020 a thu hwnt, os bydd angen. Cefnogwyd hyn gan yr ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg ar-lein.

Uned 4 yw'r unig uned lle mae asesiad manwl o sgiliau derbyngar dysgwyr o ran gwrando a darllen yn ogystal â sgiliau cyfieithu i iaith yr astudiaeth yn digwydd. Mae'r sgiliau a asesir yn Uned 4 yn hanfodol i ddysgwyr symud ymlaen i Addysg Uwch.

Ond, i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd yn yr arolwg o ran faint o'r cynnwys sydd yn y fanyleb ar lefel U2, ni asesir yr is-themâu canlynol yn uniongyrchol yn haf 2021:

- Ffrangeg – Ôl-ffeithiau ar gyfer Ffrainc heddiw (Thema 4)
- Almaeneg – Cydlynid cymdeithasol yn yr Almaen heddiw (Thema 4)
- Sbaeneg – Cyfoethogi Diwylliannol a Dathlu Gwahaniaeth (Thema 3).

Bwriad y cynnig hwn yw lleddfu'r pwysau ar yr amser addysgu ar y lefel hon.

Uned 5 sy'n cynnig y cyfle i ddysgwyr fynegi eu hunain a dangos yn llawn eu gallu i ysgrifennu'n feirniadol a dadansoddol. Er yr asesir yr AA mewn mannau eraill yn y cymhwyster, dyma'r unig gyfle a gaiff dysgwyr i ysgrifennu'n helaeth yn iaith yr astudiaeth. Credai'r grŵp ffocws fod hynny'n cefnogi dilyniant dysgwyr i Addysg Uwch. Yn wahanol i gymwysterau tebyg lle mae llenyddiaeth yn rhan o'r cynllun astudio, dim ond un gwaith a ddewisir gan ganolfannau o restr osod a astudir ar gyfer Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg. Mae gofyn i ddysgwyr ateb un cwestiwn traethawd o ddewis o ddau ar y gwaith hwnnw. Ni fydd yn bosibl lleihau'r gofynion astudio ar gyfer yr uned hon, gan fod dim ond un dasg lenyddol.

Rydym yn dra ymwybodol o'r angen i sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn cael mantais nac anfantais oherwydd yr awdurdodaeth y mae'n sefyll ei gymhwyster ynddi; drwy wneud yr addasiad hwn mae'n cyfateb i safonau cymwysterau cymharol mewn awdurdodaethau eraill ac yn golygu nad oes unrhyw gyfyngiad ar y llwybrau dilyniant sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru.

Daearyddiaeth

UG

Uned 1: Tirweddau Newidiol (24%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Lleoedd Newidiol (16%)

Adran A: Lleoedd Newidiol

Does dim newidiadau i'r rhan hon o'r asesiad

Adran B: Ymchwiliad Gwaith Maes Ffisegol a Dynol

Gofynnir i ddysgwyr ymgymryd ag **o leiaf un** profiad gwaith maes wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gall hwn fod yn brofiad yng nghyd-destun daearyddiaeth ffisegol **neu** ddynol (neu gall fod yng nghyd-destun cwestiynau a materion pobl-amgylchedd). Rhaid i'r profiad gwaith maes hwn roi i'r dysgwyr y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol gan eu cymhwyso at chwe chyfnod y broses ymholi yn ôl yr amlinelliad yn Adran 2a y fanyleb.

Yng Nghwestiwn 4 a Chwestiwn 5 bydd dysgwyr yn gallu ateb y ddau gwestiwn ar un profiad gwaith maes, os bydd angen gwneud hynny.

Does dim newidiadau i'r gofyniad i ymdrin â sgiliau daearyddol fel y'i nodir yn Atodiad A y fanyleb.

Safon Uwch

Uned 3: Systemau Byd-eang a Llywodraethu byd-eang (24%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 4: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth (16%)

Adran A: Peryglon Tectonig

Does dim newidiadau i'r rhan hon o'r asesiad.

Adran B: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth

Addasir y rhan hon o'r asesiad a bydd angen ymdrin ag **un** thema ddewisol yn unig. Bydd gofyn i ddysgwyr gwblhau **dau** o **dri** thraethawd dewisol o'r **un** thema o'u dewis.

Uned 5: Ymchwiliad Annibynnol (Asesiad Di-arholiad) (20%)

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

Ni fydd CBAC yn gofyn i ganolfannau gyflwyno'r datganiad gwaith maes 4 diwrnod yn 2021. Ond, byddem yn annog canolfannau i gynnwys gwaith maes yn rhan o'r astudiaeth lle y mae'n saff ac yn ymarferol gwneud hynny. Mae CBAC hefyd yn annog athrawon i ddefnyddio dulliau eraill i gyflwyno dysgwyr i'r amrediad gofynnol o sgiliau gwaith maes er mwyn paratoi i gwblhau'r Asesiad Di-arholiad. Gallai hyn gynnwys dysgu drwy ddulliau rhithiol a defnyddio profiadau gwaith maes a gwblheir ar y safle neu'n lleol. Estynnir y terfyn amser ar gyfer cyflwyno samplau Asesu Di-arholiad i'w cymedroli tan **15 Mai, 2021**.

Sail resymegol

Mae'n bwysig o hyd i ymdrin yn llawn ag Unedau 1, 2 a 3 er mwyn cyflwyno themâu craidd y cwrs ac yn barod at yr asesiad synoptig yn Uned 3, Adran C. Mae ymdrin â'r unedau craidd hyn hefyd yn cynorthwyo â'r broses o gynnwys y cysyniadau arbenigol gofynnol, y sgiliau daearyddol a'r sgiliau gwaith maes sy'n angenrheidiol i baratoi ar gyfer asesiadau'r unedau UG ac U2. Er mwyn ysgafnhau unrhyw bwysau a allai berthyn i waith maes grŵp, newidiwyd y gofyniad i gael dau brofiad gwaith maes ar wahân ar gyfer daearyddiaeth ffisegol a daearyddiaeth ddynol ar lefel UG Dylai canolfannau fod yn ymwybodol bod dysgu yn yr awyr agored i'w annog o fis Medi, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gellir cwblhau'r un profiad gwaith maes hwn yn agos at safle'r ysgol neu ar y safle ei hun.

Mae'r asesiad di-arholiad yn rhan hanfodol o Safon Uwch Daearyddiaeth. Ar 20%, nid yw tynnu'r gydran hon yn gyson â chanllawiau'r rheoleiddiwr. Wrth drafod â'r athrawon oedd yn rhan o'r grŵp ffocws wnaeth ystyried addasiadau ar gyfer 2021, cytunwyd y dylid cadw'r Asesiad Di-arholiad ac y bydd dysgwyr yn gallu cwblhau'r elfen ofynnol o gasglu data cynradd yn annibynnol (lle y bo angen gwneud hynny) a chan gadw at y canllawiau ymbellhau cymdeithasol diweddaraf. Nid oes gwir angen mynd â dysgwyr oddi ar y safle gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i addysgu'r sgiliau sy'n ofynnol iddyn nhw allu gwneud dewis gwybodus am deitlau ymchwiliad a chasglu data. Gellir addysgu llawer o'r sgiliau meintiol ac ansoddol y gall fod eu hangen o gwmpas yr ardal leol, mewn ystafell ddosbarth neu drwy ddefnyddio dysgu cyfunol. Mae CBAC yn dra ymwybodol o'r angen i sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn cael mantais nac anfantais oherwydd yr awdurdodaeth y mae'n sefyll ei gymhwyster ynddi; drwy gynnig yr argymhelliad hwn rydym yn sicrhau bod y cynnig yn cyfateb i'r asesiadau a safwyd gan ddysgwyr cyfresi blaenorol ac mewn awdurdodaethau eraill yn 2021, ac nad yw'n cyfaddawdu dilyniant i addysg uwch. Oherwydd yr amser addysgu sy'n ofynnol i gyflwyno'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau'r Asesiad Di-arholiad yn yr amgylchiadau newydd hyn, bydd symleiddio'r un thema ddewisol o Adran B, Uned 4 yn caniatáu mwy o amser addysgu o fis Medi. Gellir felly cwrdd â gofynion Adran A, Uned 4 (a addysgir ar draws yr UG ac U2) a'r Asesiad Di-arholiad.

Dylai canolfannau a dysgwyr ganolbwyntio ar ddatblygu teitlau ymchwiliad priodol ac ymarferol fydd yn caniatáu iddynt gasglu data cynradd yn ddiogel dan yr amgylchiadau presennol. Efallai y bydd hyn yn golygu bod angen i rai canolfannau addasu'r model sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd ar gyfer paratoi dysgwyr ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad. Dylai athrawon reoli disgwyliadau'r dysgwyr yn ofalus o ran casglu data er mwyn sicrhau bod y dewis o deitl ar gyfer yr ymchwiliad a'r fethodoleg sy'n deillio o hynny yn briodol. Dylai canolfannau nodi nad oes unrhyw gydbwysedd penodol rhwng data cynradd a data eilaidd yn yr ymchwiliadau a gwblheir. Mae gofyn i bob dysgwr gwblhau asesiad risg llawn yn rhan o'i ymchwiliad.

Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

UG

Uned 1 Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig (20%):

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2 Byw a Chyfranogi mewn democratiaeth (20%):

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Bydd cynnwys y fanyleb yn cael ei symleiddio; felly, ni asesir y cynnwys canlynol yn 2021.

Uned 3 Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol (30%):

Yn 3.1.2 Safbwyntiau Rhyddfrydol, **Effaith syniadau rhyddfrydol ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

Yn 3.2.2 Safbwyntiau Ceidwadol, **Effaith syniadau ceidwadol ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

Yn 3.3.2 Safbwyntiau Sosialaidd, **Effaith syniadau sosialaidd ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

Yn 3.4.2 Safbwyntiau Cenedlaetholgar, **Effaith syniadau cenedlaetholgar ar wleidyddiaeth fyd-eang.*

Uned 4 Llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA (30%):

Yn 4.1.3 Y Bil Hawliau, tynnu 'y gosb eithaf' o **Dadleuon cyfoes ynghylch hawliau sifil a rhyddid sifil yn UDA: perchenogaeth gynnu; y gosb eithaf a phreifatwydd.* Felly, byddai'r pwynt bwled hwn yn darllen **Dadleuon cyfoes ynghylch hawliau sifil a rhyddid sifil yn UDA: perchenogaeth gynnu a phreifatwydd.*

Yn 4.2.2 Arlywydd UDA gartref a thramor, **Dadleuon ynghylch grym a dylanwad cymharol y Cabinet a Swyddfa Weithredol yr Arlywydd.*

Yn 4.2.3 Llys Goruchaf UDA, **Effaith achosion nodedig Marbury vs Madison (1803) a McCulloch vs Maryland (1819).*

Yn 4.3.3 Pleidiau gwleidyddol yn UDA, **Rhesymau pam mae dwy blaid yn gryfach; arwyddocâd pleidiau trydyddol ac ymgeiswyr annibynnol.*

Sail resymegol

Yr unig addasiad y mae'n bosibl ei wneud yw symleiddio'r cynnwys ac mae hynny'n cyfateb i arbed tua 10-12 o oriau dysgu dan arweiniad. Gan fod addysgu Uned 3 ac Uned 4 yn cael ei rannu ar draws aelodau gwahanol o staff mewn llawer o ganolfannau, ein bwriad oedd sicrhau bod y cyfnod amser oedd ei angen yn debyg yn y ddwy uned. Er na fydd asesiad ffurfiol yn digwydd o effaith rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth, sosialaeth a chenedlaetholdeb ar wleidyddiaeth fyd-eang, mae'n dderbyniol o hyd i ddefnyddio enghreifftiau o wleidyddiaeth fyd-eang i egluro'r ideolegau hyn yn rhannau eraill cynnwys Uned 3. Ni fydd symleiddio'r cynnwys hwn ychwaith yn atal dysgwyr rhag ymateb i'w cwestiynau synoptig ar naill ai Uned 3 neu Uned 4. Drwy wneud yr addasiadau hyn mae'r fanyleb yn dal i fodloni meini prawf cynnwys y pwnc ar gyfer Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, yn cynnal lefel y galw yn y cymhwyster ac yn caniatáu i ddysgwyr symud ymlaen i addysg uwch.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HEN FANYLEB) GRADD UNIGOL

UG Uned 1 (20%) Arholiad

Does dim newidiadau i'r uned hon.

UG Uned 2 (30%) Asesiad Di-arholiad

Does dim newidiadau i'r uned hon.

U2 Uned 7 (20%) Asesiad G/C Allanol

Does dim newidiadau i'r uned hon.

U2 Uned 9/10/11/12 (30%) Asesiad Di-arholiad

Unedau dewisol yw'r rhain ac mae dysgwyr yn sefyll un o bedair uned ddewisol yn yr asesiad di-arholiad.

Ar gyfer Uned 9 *ddewisol*, byddai'n rhaid i ddysgwyr lunio adroddiad sy'n seiliedig ar astudiaeth o un (yn hytrach na dwy) rôl swydd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant.

Ar gyfer Uned 10 *ddewisol*, dim ond un unigolyn a ystyrir, felly gellid addasu'r rhan 'astudiaeth achos' fel a ganlyn:

- **Un** ddamcaniaeth heneiddio
- Dewis o **ddwy** effaith o ffactorau cymdeithasol, economaidd, emosiynol
- **Dau** o'r gwasanaethau a ddefnyddir gan yr unigolyn (un ffurfiol, un anffurfiol)

Ar gyfer Uned 11 *ddewisol*, byddai gofyn i'r dysgwyr lunio adroddiad ysgrifenedig o astudiaeth o ddau therapi cyflenwol ac i ymchwilio sut mae'r rhain yn bodloni anghenion un (yn hytrach na dau) unigolyn ag anghenion.

Ar gyfer Uned 12 *ddewisol*, byddai gofyn i ddysgwyr lunio adroddiad ysgrifenedig sy'n archwilio canlyniadau deiet NEU raglen o weithgareddau corfforol a luniwyd yn benodol i un unigolyn am 4 wythnos.

Sail resymegol

Oherwydd natur yr uned asesiad allanol orfodol yn yr U2 (uned 7 - adroddiad seiliedig ar dasg sy'n cael ei farcio'n allanol) nid yw'n bosibl addasu'r uned hon heb effeithio'n sylweddol ar yr asesiad. Nid oes ffordd rwydd o symleiddio cynnwys, gan yr asesiad yr holl gynnwys y penderfynwyd ei fod yn angenrheidiol yn yr asesiad hwn. Felly, yr hyn a argymhellwyd sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr ac yn caniatáu i'r asesiadau lifo yn yr un ffordd ond yn lleihau'r baich ar yr addysgu. Cafodd opsiynau eraill eu hystyried ond yr argymhellion hyn yw'r rhai mwyaf rhesymegol o ran sicrhau tegwch i'r unedau dewisol.

Hanes

UG

Uned 1: Astudiaeth o Gyfnod (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Astudiaeth fanwl – rhan un (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Astudiaeth eang (20%)

Bydd Adran A ac Adran B yn cael eu had-drefnu. Tynnir y cwestiynau cyfnod amser byr sy'n gysylltiedig ag Adran A i'w disodli gan gwestiynau ychwanegol yn Adran B am debygrwydd a gwahaniaeth ar draws y cyfnod. Bydd gofyn i ddysgwyr ateb **un** cwestiwn o ddewis o ddau o Thema 1 **ac un** cwestiwn o ddewis o ddau o Thema 2.

Uned 4: Astudiaeth fanwl – rhan dau (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 5: yr Asesiad Di-arholiad (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Ni all CBAC newid cynnwys yr astudiaethau manwl Uned 4. Mae tynnu adrannau o'r astudiaethau hyn yn golygu bod llai o fanylder yn perthyn iddyn nhw ac nid oes modd felly eu cymhwyso'n gyfartal ar draws yr wyth opsiwn. Ni ellir tynnu'r Asesiad Di-arholiad, dyma'r unig faes yn y cwrs Safon Uwch sy'n asesu Amcan Asesu 3. Hefyd, fel y dangosodd ymatebion i'r arolwg, yn yr Asesiad Di-arholiad y mae cyfle mawr ei angen i rai dysgwyr bontio'r sgiliau rhwng TAG Hanes a gradd israddedig mewn Hanes (yn ogystal â llawer o gyrsiau Addysg Uwch eraill). O ganlyniad, Uned 3 yw'r unig faes y gellir ei addasu mewn ffordd deg ar draws y 10 opsiwn heb ragfarnu cynnydd y dysgwyr.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai CBAC wneud y themâu'n rhai dewisol. Cafodd hyn ei ystyried, ond byddai'n tynnu hanner cant y cant o'r cynnwys ac oherwydd hynny byddai'n effeithio'n negyddol ar uniondeb yr uned. Er enghraifft, byddai dysgwyr sy'n astudio Opsiwn 8, Canrif yr Americanwyr (tua 1890-1990), yn astudio naill ai hawliau sifil *neu* ffurfio UDA yn bŵer mawr yn ystod y cyfnod, a byddai'r safbwynt a gafwyd gan y dysgwyr hynny o UDA ar draws y cyfnod hwn yn rhy gyfyngedig. Yn lle hynny, mae tynnu'r cwestiynau â chyfnod amser byr yn Uned 3 yn lleihau dyfnder y wybodaeth y mae ei hangen fel arfer ar gyfer Adran A, gan olygu bod modd i ddysgwyr ganolbwyntio ar y cwestiynau "tebygrwyddau a gwahaniaethau ar draws y cyfnod" yn Adran B. Mae llai o bwysau ar y dysgwyr yn yr arholiad o gael dewis o ddau gwestiwn i bob thema gan y gallant ganolbwyntio ar feysydd lle mae ganddynt well gafael ar gwmpas neu gyfyngiadau newid ar draws y cyfnod gosod.

Y Gyfraith

UG

Uned 1: Natur y Gyfraith a Systemau Cyfreithiol Cymru a Lloegr (25% o'r cymhwyster)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Cyfraith Camwedd (15% o'r cymhwyster)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Arfer y Gyfraith Gadarnhaol (30% o'r cymhwyster) AC Uned 4: Safbwyntiau'r Gyfraith Gadarnhaol (30% o'r cymhwyster)

Symleiddio cynnwys fel na fydd y testunau canlynol yn cael eu hasesu yn 2021:

- **Opsiwn hawliau dynol** - o 3.3 - tor-cyfrinachedd, anweddustra a chamweddau tresmasu ac aflonyddu.
- **Opsiwn cyfraith contract** - o 3.7 - Preifatrwydd contract ac o 3.9 - Gorfodaeth economaidd
- **Cyfraith Trosedd** - o 3.15 - Troseddau eiddo, gan gynnwys dwyn a lladrad ac o 3.17 - troseddau ymgais rhagarweiniol

Does dim bwriad i newid amseriadau, marciau a phwysoli asesiadau naill ai Uned 3 nac Uned 4.

Sail resymegol

Mae'r addasiadau yn ystyried yr amser a gollwyd o ran addysgu a dysgu ac yn sicrhau o hyd bod yr holl asesiadau yn parhau i fod yn gyflawn.

Sail resymegol symleiddio'r testunau hyn yw: Maent yn destunau annibynnol; dydyn nhw ddim yn effeithio ar gyflwyno unrhyw destunau eraill. Maent yn cymharu o ran maint ar draws yr opsiynau.

Asesir yr un cynnwys yn Uned 3 ac Uned 4 ond mae'r asesu ei hun yn wahanol. Mae Uned 3 yn asesu AA1 (gwybodaeth) ac AA2 (cymhwyso'r gyfraith at senario) ac Uned 4 yn asesu AA1 (gwybodaeth) ac AA3 (gwerthuso). Mae symleiddio'r testunau hyn felly yn sicrhau bod yr un ymdriniaeth gytbwys â'r amcanion asesu'n bresennol yn y ddau bapur arholiad. Mae canolfannau'n dewis dau allan o dri opsiwn yn yr U2 (Hawliau Dynol, Cyfraith Contract a Chyfraith Trosedd). Gan fod gofyn i ganolfannau ddewis dau o dri opsiwn (hawliau dynol, contract a throsedd), rhaid symleiddio cynnwys o bob un.

Cytunodd y grŵp ffocws ar y cyfan â'r cynigion arfaethedig i Safon Uwch Y Gyfraith.

Mathemateg/Mathemateg Bellach

Ar gyfer TAG Mathemateg/Mathemateg Bellach, rydym yn darparu rhestr o destunau fydd ddim yn cael eu hasesu yn Haf 2021.

Ni fydd y cynnwys y rhoddir ei fanylion isod yn cael ei asesu yn yr arholiadau TAG Mathemateg a TAG Mathemateg Bellach yn Haf 2021. O ran Mathemateg Bellach, bydd dysgwyr yn astudio Uned 4 a naill ai Uned 5 neu Uned 6.

TAG MATHEMATEG

Cynnwys a fydd DDIM yn cael ei asesu yn arholiadau Haf 2021.
U2 Uned 3 – Mathemateg Bur B
2.3.1 Prawf
Prawf drwy wrthddywediad (gan gynnwys prawf o anghymaroldeb $\sqrt{2}$ ac anfeidredd rhifau cysefin, a chymhwyso at brofion anghyfarwydd).
2.3.8 Dulliau Rhifiadol
Lleoli gwreiddiau $f(x) = 0$ drwy ystyried newidiadau yn arwydd $f(x)$ mewn cyfwng o x lle mae $f(x)$ yn ymddwyn yn ddigonol o dda. Deall sut gall dulliau newid arwydd fethu. Bras ddatrys hafaliadau gan ddefnyddio dulliau iterus syml; gallu lluniadu diagramau pry cop a diagramau grisiau cysylltiedig. Datrys hafaliadau gan ddefnyddio dull Newton-Raphson a pherthnasoedd dychweliad eraill o'r ffurf $x_{N+1} = g(x_n)$. Deall sut gall dulliau o'r fath fethu. Deall a defnyddio integru ffwythiannau'n rhifiadol, gan gynnwys defnyddio rheol y trapesiwm ac amcangyfrif brasamcan o'r arwynebedd o dan gromlin a'r terfannau y mae'n rhaid iddo orwedd rhyngddynt. Defnyddio dulliau rhifiadol i ddatrys problemau mewn cyd-destun.

TAG MATHEMATEG BELLACH

Cynnwys a fydd DDIM yn cael ei asesu yn arholiadau haf 2021.	Sylwadau Ychwanegol
U2 Uned 4 – Mathemateg Bur Bellach B	
2.4.4 Algebra a Ffwythiannau Pellach	
Darganfod cyfres Maclaurin ffwythiant (gan gynnwys y term cyffredinol). Adnabod a defnyddio'r gyfres Maclaurin ar gyfer e^x, $\ln(1+x)$, $\sin x$, $\cos x$ a $(1+x)^n$, a bod yn ymwybodol o'r amrediad o werthoedd x y maent yn ddilys ar eu cyfer.	DIM OND y gyfres Maclaurin yn adran 2.4.4 fydd ddim yn cael ei hasesu. Gellid asesu'r canlynol o adran 2.4.4: Deall a defnyddio ffracsïynau rhannol sydd ag enwaduron yn y ffurf $(ax+b)(cx^2+d)$.

Cynnwys a fydd DDIM yn cael ei asesu yn arholiadau haf 2021.	Sylwadau Ychwanegol
U2 Uned 5 – Ystadegaeth Bellach B (uned ddewisol)	
2.5.3 Profi Rhagdybiaethau	
DIM OND Deall a defnyddio profion ar gyfer (b) y gwahaniaeth rhwng dau gymedr ar gyfer dau ddosraniad normal annibynnol sydd ag amrywiannau hysbys.	Dim
2.5.4 Amcangyfrif	
DIM OND Deall a defnyddio terfannau hyder ar gyfer (a) cymedr dosraniad normal gydag (ii) amrywiant anhysbys .	Dim
U2 Uned 6 – Mecaneg Bellach B (uned ddewisol)	
2.6.3 Momentau a Chraidd Mäs	
Deall a defnyddio craidd mäs gwrthrychau anhyblyg unffurf a gwrthrychau cyfansawdd .	Dim

Sail resymegol

Mae'n anorffod bod cynnwys y TAG Mathemateg yn cydblethu â chynnwys y TAG Mathemateg Bellach. Oherwydd hynny, ystyriwyd yn ofalus wrth ddethol y rhannau penodol o gynnwys a fydd ddim yn cael eu hasesu yn yr unedau U2 Mathemateg yn Haf 2021. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad effeithir yn negyddol ar addysgu a dysgu'r TAG Mathemateg Bellach.

Ar gyfer TAG Mathemateg, ystyriwyd a oedd yn bosibl adnabod cynnwys na fyddai'n cael ei asesu yn Haf 2021 yn yr U2 Uned 3 a'r U2 Uned 4 ond ein casgliad oedd, pe na fyddai cynnwys wedi'i asesu yn Uned 4, y byddai hynny wedi effeithio ar asesiad yr unedau mathemateg gymhwysol yn y TAG Mathemateg Bellach. Felly, bydd y cynnwys fydd ddim yn cael ei asesu yn Haf 2021 yn dod o Uned 3 yn unig.

Ar gyfer TAG Mathemateg Bellach, roeddem yn gallu adnabod cynnwys o'r tair uned U2 (Unedau 4, 5 a 6) a fydd ddim yn cael ei asesu yn Haf 2021.

Dewiswyd y cynnwys yn y naill gymhwyster a'r llall yn ofalus er mwyn sicrhau bod yr addasiadau'n cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad, ond yn lleihau'r cynnwys y mae angen ei asesu.

Astudio'r Cyfryngau

UG

Uned 1 (arholiad: 24%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2 (Asesiad Di-arholiad: 16%)

1. Does dim newidiadau i'r gofynion ymchwil, cynllunio na dadansoddi myfyriol.
2. Lleihau'r gofynion o ran hyd/nifer yr holl opsiynau cynhyrchu:
 - print: **dwy** dudalen (pedair fel arfer)
 - Clyweled: **un munud tri deg eiliad – dau funud tri deg eiliad** (tri i bum munud fel arfer)
 - Ar-lein – **un dudalen gartref ac un adroddiad sain neu fideo** (tudalen gartref a dwy dudalen arall fel arfer ynghyd ag adroddiad sain neu fideo)

U2

Uned 3 (arholiad: 36%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 4 (Asesiad Di-arholiad: 24%)

1. Does dim newidiadau i'r gofynion ymchwil ymchwiliol, amlinelliad datblygu na dadansoddi beirniadol.
2. Tynnu'r gofyniad i gwblhau ail ran y cynhyrchiad o wahanol gyfryngau, fel bod dysgwyr yn creu un cynhyrchiad cyfryngau, yn hytrach na'r ddau arferol.
3. Haneru hyd gofynnol Briff 1, Opsiynau 1 a 2: un munud tri deg eiliad – **dau funud** (unigol), **dau funud - dau funud tri deg eiliad** (pâr).
4. Lleihau nifer y tudalennau a delweddau gwreiddiol y mae eu hangen ar gyfer Briff 2, Opsiynau 1 a 2: **cyfanswm tair tudalen**, yn cynnwys **clawr blaen** ac **erthygl tudalen ddwbl**; o leiaf **pum delwedd wreiddiol wahanol i gyd** (pedair tudalen ac wyth delwedd wreiddiol.)

Sail resymegol (UG ac U2)

Mae'n hanfodol gwneud newidiadau i'r tasgau Asesu Di-arholiad er mwyn ymdrin â gofynion ymbellhau cymdeithasol, materion cael mynediad i offer arbenigol ac, yn yr U2 yn benodol, yr amser addysgu a gollwyd. Awgrymodd y grŵp ffocws mai'r achos pryder mwyaf i athrawon oedd cwblhau'r Asesiad Di-arholiad ac mae canlyniadau'r arolwg yn cefnogi hynny. Nid yw newid y briffiau yn awr i'w hasesu yn 2021 yn ymarferol gan fod llawer o ddysgwyr wedi cychwyn ar y gwaith ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad U2 yn barod a byddai newid y briffiau UG mor hwyr yn debygol o fod yn achos dryswch ac ansicrwydd i athrawon. Drwy leihau hyd/maint y gwaith cynhyrchu sy'n ofynnol mae'n fwy hylaw i gwblhau'r Asesiad Di-arholiad. Gall dysgwyr ymgymryd â'r gwaith hwn o hyd a chael eu hasesu, ac mae hynny'n rhan allweddol o gymhwyster Astudio'r Cyfryngau ac yn bwysig o ran dilyniant. Yn yr UG a'r U2, mae dewisiadau cynhyrchu unigol ar gael i gefnogi gofynion ymbellhau cymdeithasol. Er y bydd angen o hyd i ddysgwyr ddefnyddio actorion, modelau ac ati, mae'n bosibl gwneud hyn a chynnal ymbellhau cymdeithasol ar yr un pryd. Bydd lleihau nifer y delweddau a faint o ddarnau o ffilm sydd eu hangen erbyn hyn yn sicrhau bod modd gwneud hyn. Drwy ddilyn y drefn hon o leihau gofynion yr Asesiad Di-arholiad, yn hytrach na'u tynnu, sicrhau y gall dysgwyr gael credyd o hyd am y gwaith a gwblhawyd ganddynt yn barod. Ar gyfer yr U2, ni fyddai dysgwyr yn cychwyn ar y rhan o'r cynhyrchiad o wahanol gyfryngau tan y byddant wedi cwblhau rhannau eraill yr uned. Ni ddylai tynnu'r elfen hon felly effeithio'n negyddol.

Mae lleihau'r gofynion Asesu Di-arholiad (yn yr U2 yn enwedig lle mae'r newid yn un eithaf sylweddol, gan fod mwy o amser addysgu wedi'i golli) yn golygu bod mwy o amser ar gael i athrawon a dysgwyr baratoi ar gyfer yr arholiadau. Ni fwriedir felly gwneud unrhyw newidiadau i Unedau 1 na 3 ar hyn o bryd. Bwriad lleihau'r gofynion asesu di-arholiad a gadael yr arholiadau heb eu newid yw sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru ac awdurdodaethau eraill yn gyfartal. Hefyd, mae'n cynnal safon a lefel y galw yn y cymhwyster, gan nad yw newidiadau i'r Asesu di-arholiad yn effeithio ar gynnwys nac asesiad y cymhwyster, yr ymdriniaeth â'r Amcanion Asesu, y marciau na'r pwysoli.

Cerddoriaeth

UG

Uned 1: Perfformio - 30% o'r UG, 12% o'r Safon Uwch

Lleihau'r amser perfformio o 6-8 munud i 5-7 munud. Caiff y siart cosbau amser ei addasu ar gyfer 2021. Tynnu'r gofyniad i un o'r darnau gysylltu â maes astudio. Gall dysgwyr sy'n cynllunio i wneud datganiad hirach (gan gadw i'r amseriadau arferol) gyflwyno hwn o hyd. Nid oes cosb am fynd dros yr amser gofynnol. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu defnyddio'r un dull â'r arfer i asesu'r Uned hon drwy gyfrwng arholwr ymweld, ond gellir ailystyried hyn yn dibynnu ar gyngor iechyd y cyhoedd.

Uned 2: Cyfansoddi - 30% o'r UG, 12% o'r Safon Uwch

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 3: Arfarnu - 40% o'r UG, 16% o'r Safon Uwch

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 4: Perfformio - Opsiwn A 22% neu Opsiwn B 14%

Lleihau'r amser perfformio o 10-12 munud i 8 ½ - 10 munud (opsiwn A) ac o 6-8 munud i 5-7 munud (opsiwn B). Caiff y siart cosbau amser ei addasu ar gyfer 2021. Tynnu'r gofyniad i un o'r darnau gysylltu â maes astudio. Gall dysgwyr sy'n cynllunio i wneud datganiad hirach (gan gadw i'r amseriadau arferol) gyflwyno hwn o hyd. Does dim cosb am fynd dros yr amser gofynnol. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu defnyddio'r un dull â'r arfer i asesu'r Uned hon drwy gyfrwng arholwr ymweld, ond gellir ailystyried hyn yn dibynnu ar gyngor iechyd y cyhoedd.

Uned 5: Cyfansoddi - Opsiwn A 14% neu Opsiwn B 22%

Does dim newid i'r gofynion i gyflwyno un cyfansoddiad i friff ac un (opsiwn A) neu ddau (opsiwn B) gyfansoddiad rhydd. Ond, gall dysgwyr wella a chyflwyno cyfansoddiadau a gychwynnwyd ganddynt yn barod ar gyfer y cwrs UG a bydd cyfansoddiadau mewn ymateb i naill ai'r **briffiau UG 2020** (a ryddhawyd ym mis Medi 2019) neu'r **briffiau Safon Uwch 2021** (a ryddheir ym mis Medi 2020) yn dderbyniol. Defnyddir y meini prawf Safon Uwch fel y'u cyhoeddwyd yn y fanyleb i asesu'r holl gyfansoddiadau.

Uned 6: Arfarnu – 24%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Bydd lleihau hyd gofynnol perfformiad yn yr UG a'r U2 a'r cysylltiad â maes astudio yn rhoi peth ystyriaeth i'r amser tiwtora unigol a gollwyd mewn cyfnod pryd y gellid bod yn archwilio repertoire.

Bydd caniatáu cyflwyno gwaith cyfansoddi a gychwynnwyd yn ystod y cwrs UG yn cynnal asesiad Traddodiad Clasurol y Gorllewin, yn ogystal â chyfansoddi rhydd. Teimlwyd bod hyn yn hanfodol i ddysgwyr sy'n parhau â'u haddysg gerddorol.

Addysg Gorfforol

UG

Uned 1: Archwilio addysg gorfforol (Arholiad ysgrifenedig) 24%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Gwella Perfformiad Personol mewn Addysg Gorfforol (Asesiad Di-arholiad) 16%

Does dim newidiadau i'r tasgau na'r meini prawf asesu*.

Safon Uwch

Uned 3: Gwerthuso addysg gorfforol (Arholiad ysgrifenedig) 36%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 4: Mireinio perfformiad personol mewn addysg gorfforol (Asesiad Di-arholiad) 24%

Does dim newidiadau i'r dasg na'r meini prawf asesu*.

Does dim newidiadau i'r gofynion i gyflwyno'r Project Ymchwil Ymchwiliol. Ond, gall dysgwyr wella a chyflwyno eu Proffil Perfformiad Personol maen nhw wedi'i gychwyn ond heb ei gyflwyno ar gyfer y cymhwyster UG yn 2020. Defnyddir y meini prawf Safon Uwch fel y'u cyhoeddwyd yn y fanyleb i asesu hwn wedyn. Felly, rhaid i ddysgwyr sicrhau eu bod yn ystyried yr holl agweddau ar y meini prawf hyn wrth wella ar eu gwaith.

***Asesiad Di-arholiad Uned 2 ac Uned 4**

Rydym yn ystyried pa mor ymarferol fyddai addasu'r broses gymedroli, a gallai hynny gynnwys:

- cymedroli o bell
- tystiolaeth ar gyfer perfformiad/hyfforddi/dyfarnu a allai fod yn sgiliau/driliau/gweithgareddau wedi'u haddasu ac unrhyw dystiolaeth gefnogol ychwanegol sy'n helpu i gyfiawnhau'r marciau a ddyfarnwyd.

Sail resymegol

Bydd addasu Uned 4, gan ganiatáu cyflwyno gwaith o'r UG ar gyfer yr U2, yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd. Dylai defnyddio'r dull hwn leddfu materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol a chael mynediad at gyfleusterau. Nid yw'n bosibl gwneud rhagor o ran lliniaru heb gyfaddawdu uniondeb y cymhwyster TAG. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau'r baich asesu yn sylweddol.

Seicoleg

UG

Uned 1: Seicoleg: O'r Gorffennol i'r Presennol (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Seicoleg: Defnyddio Cysyniadau Seicolegol (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3: Seicoleg: Goblygiadau yn y Byd Real (40%)

Adran B: Materion Dadleuol – bydd gan ddysgwyr ddewis o hyd i ateb naill ai cwestiwn 7 neu gwestiwn 8. Ond, daw'r cwestiynau hyn o bedwar mater dadleuol, yn hytrach na'r pum mater dadleuol arferol.

Ni asesir Tuedd Ddiwylliannol

- astudiaethau trawsddiwylliannol
- gwahaniaeth neu duedd
- ethnosentrigrwydd
- cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol

yn 2021.

Uned 4: Seicoleg: Dulliau Ymchwil Cymhwysol (20%)

Adran A: Ymchwiliadau Personol - bydd dysgwyr yn ateb cwestiynau (cyfanswm o 30 o farciau) am **un** o'r ymchwiliadau personol yn unig, yn benodol '*Astudiaeth holiadur am y canfyddiad o lesiant yn dilyn ymarfer*'. Ni fydd cwestiynau'n cael eu gofyn i ddysgwyr am yr ymchwiliad personol '*Astudiaeth gydberthynol o'r amser sy'n cael ei dreulio'n adolygu a sgorau ar brawf*'.

Mae manyleb Uned 4 yn nodi bod y cynnwys o Uned 2, Adran B yn cael ei gynnwys hefyd. Ni asesir y cynnwys Uned 2 Adran B yn yr arholiad Uned 4 yn 2021:

- Milgram, S. (1963). Astudiaeth ymddygiadol o Ufudd-dod. *Journal of Abnormal and Social Psychology*, 67, 371-8
- Kohlberg, L. (1968). Y plentyn fel athronydd moesol. *Psychology Today*, 2, 25-30

Sail resymegol

Cafodd sawl addasiad ei ystyried o ran y Safon Uwch, a'r rhain y penderfynodd y grŵp ffocws a fyddai'n fwyaf priodol. Maent yn newid cyn lleied â phosibl ar brofiad cyffredinol y dysgwyr ac ar fformat yr arholiad, ond yn caniatáu ychydig mwy o hyblygrwydd i athrawon o ran cyflwyno'r pwnc (tua 10-15 o oriau dysgu dan arweiniad wedi'u harbed).

Drwy gadw un ymchwiliad personol gall athrawon gadw'r hyn maen nhw'n ei ystyried sy'n rhan werthfawr o'r cwrs. Ystyrir ei bod yn briodol cadw'r astudiaeth holiadur yn hytrach na'r astudiaeth gydberthynol gan y gallai'r dysgwyr unigol gasglu'r data hyn yn rhwyddach.

Ystyriwyd lleihau ymhellach y cynnwys a asesir yn Uned 3 Adran A, e.e. gostwng nifer yr ymddygiadau a astudiwyd o dri i ddau. Ond, byddai hyn wedi arwain at leihau'n sylweddol nifer y marciau sydd ar gael am y papur hwn. Mae symleiddio 'tuedd diwylliannol' o'r gronfa o faterion dadleuol posibl, a chadw'r dewis i '*Ateb **un** o'r cwestiynau*' yn golygu y gallai canolfannau gyflwyno'r pedwar mater dadleuol sy'n weddill gan sicrhau bod dewis ar gael i ddysgwyr. Gallai canolfannau hefyd ddewis cyflwyno dim ond tri o'r materion dadleuol sy'n weddill, ond o wneud hyn efallai na fydd gan eu dysgwyr ddewis pe byddai'r opsiwn na chafodd ei astudio yn sail i naill ai gwestiwn 7 neu gwestiwn 8. Er na fyddai mater dadleuol tuedd ddiwylliannol yn cael ei asesu yn 2021, gall dysgwyr barhau i'w ddefnyddio wrth gwrs fel beirniadaeth werthusol bosibl.

Drwy wneud yr addasiadau hyn mae'r fanyleb yn dal i fodloni gofynion y rheoleiddwyr o ran Seicoleg, yn cynnal lefel y galw yn y cymhwyster ac yn caniatáu dilyniant i addysg uwch i ddysgwyr.

Astudiaethau Crefyddol

UG

Uned 1: Cyflwyniad i Astudiaeth o Grefydd (pwysoli o 15%)

Opsiwn A – Cyflwyniad i Astudiaeth o Gristnogaeth
Opsiwn B – Cyflwyniad i Astudiaeth o Islam
Opsiwn C – Cyflwyniad i Astudiaeth o Iddewiaeth
Opsiwn D – Cyflwyniad i Astudiaeth o Fwdhaeth
Opsiwn E – Cyflwyniad i Astudiaeth o Hindŵaeth
Opsiwn F – Cyflwyniad i Astudiaeth o Sikhiaeth

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2 (pwysoli o 25%)

Adran A: Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg
Adran B: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Safon Uwch

Uned 3 : Astudiaeth o Grefydd (pwysoli o 20%)

Opsiwn A – Astudiaeth o Gristnogaeth
Opsiwn B - Astudiaeth o Islam
Opsiwn C – Astudiaeth o Iddewiaeth
Opsiwn D – Astudiaeth o Fwdhaeth
Opsiwn E – Astudiaeth o Hindŵaeth
Opsiwn F – Astudiaeth o Sikhiaeth

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 4: Astudiaeth o Grefydd a Moeseg (pwysoli o 20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 5: Astudiaeth o Athroniaeth Crefydd (pwysoli o 20%)

Symleiddio'r cynnwys – ni fydd Thema 4 yn ei chyfanrwydd yn cael ei hasesu yn 2021. Mae Thema 4 yn cynnwys:

Thema 4 Is-thema 4A: iaith grefyddol yn anwybyddol ac yn symbolaidd
Thema 4 Is-thema 4B: iaith grefyddol yn anwybyddol ac yn fytholegol
Thema 4 Is-thema 4C: iaith grefyddol fel gêm ieithyddol

a'r materion AA2 cyfatebol i'w gwerthuso:

- Effeithiolrwydd y termau anwybyddol, cydweddiadol a mytholegol fel atebion i broblemau iaith grefyddol.
- Perthnasedd materion yn ymwneud ag iaith grefyddol yn yr 21ain ganrif.
- I ba raddau y mae gemau ieithyddol yn darparu ffordd addas o ddatrys problemau'n ymwneud ag iaith grefyddol.
- A ellir cytuno bod gan iaith symbolaidd ystyr digonol fel ffurf ar iaith.
- I ba raddau y mae gwaith Randall a Tillich yn darparu ymateb addas i her positiffaeth resymegol.
- A oes mwy o gryfderau na gwendidau yn perthyn i iaith grefyddol.

Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd) (pwysoli o 20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Sail resymegol

Mae'r addasiad arfaethedig yn ystyried yr amser a gollwyd o ran addysgu a dysgu ac yn sicrhau o hyd bod yr holl asesiadau yn parhau i fod yn ddilys.

Uned 5 Athroniaeth Crefydd – ni fyddai peidio ag asesu'r cyfan o Thema 4 yn 2021 yn effeithio'n fawr ar y tair Thema sy'n weddill. Nid yw hyn yn effeithio ar y cynnwys craidd sy'n ofynnol ar gyfer dilyniant. Mae'r addasiad yn sicrhau'r canlynol:

- cadw'r sgiliau AA1 ac AA2 sy'n ofynnol ar gyfer yr UG a Safon Uwch hwn
- cadw fformat asesu a phwysoli'r holl unedau UG a Safon Uwch.

Mae gwneud yr addasiad hwn yn sicrhau y bydd y canlyniadau'n rhai dibynadwy ac yn asesiad teg o alluoedd dysgwyr. Hefyd mae'n cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad, gan leihau ychydig ar faint o'r cynnwys i'w astudio ar gyfer ei asesu.

Nid yw'n bosibl addasu ymhellach heb gyfaddawdu uniondeb y cymhwyster.

Cymdeithaseg

UG

Uned 1 Caffael Diwylliant 15% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2 Deall Cymdeithas a Dulliau Ymchwilio Cymdeithasegol 25% o'r cymhwyster

Does dim newidiadau i'r uned hon.

U2

Uned 3 Grym a Rheolaeth 25% o'r cymhwyster

Cwestiynau 1b a c; 2b a c; 3b a c; byddai 4b a c yn ymdrin â'r canlynol yn unig:

Trosedd a gwyredd - damcaniaethau ac esboniadau o drosedd a gwyredd: swyddogaethol, Marcsaidd, neo-Farcsaidd, rhyngweithiadol, realaeth y dde a'r chwith, ôl-fodernaidd, ffeministaidd, is-ddiwylliannol.

Iechyd ac anabledd - damcaniaethau ac esboniadau o iechyd ac anabledd: swyddogaethol, Marcsaidd, rhyngweithiol, ffeministaidd, ôl-fodernaidd, model biofeddygol.

Gwleidyddiaeth - damcaniaethau ac esboniadau o rym a gwleidyddiaeth: swyddogaethol, Marcsaidd, neo-Farcsaidd, ôl-fodernaidd, Weberaidd, plwralaidd, damcaniaethau elft.

Cymdeithaseg fyd-eang - damcaniaethau ac esboniadau o ddatblygiad: Marcsaidd, modernaidd, dibyniaeth, damcaniaeth systemau byd-eang.

Sail resymegol

Mae'r addasiadau arfaethedig yn ystyried yr amhariad i'r amser addysgu a dysgu ac yn sicrhau bod yr holl asesiadau yn parhau i fod yn gyflawn. Mae'r cynigion hyn yn helpu i leihau nifer y mathau o draethodau y byddai eu hangen fel arfer er mwyn paratoi dysgwyr yn briodol ar gyfer yr arholiadau. Drwy ganolbwyntio traethodau ar ddadansoddi a gwerthuso safbwyntiau damcaniaethol, mae'r gofyniad i asesu cymhwysiad y damcaniaethau hyn at amrediad o senarios cymdeithasegol yn lleihau.

Yn y cwestiynau traethawd, bydd dewis o hyd yn Uned 3. Ond, awgrymir bod yr holl gwestiynau traethawd yn seiliedig ar ddamcaniaeth yn unig. Ni ddylai'r argymhellion hyn effeithio ar yr asesu na'r cynnwys ond dylent wneud iawn am unrhyw broblemau sy'n deillio o'r amhariad ar yr addysgu drwy gyfyngu'r hyn mae'r cwestiynau traethawd yn canolbwyntio arno.

Bydd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar ddadansoddi a gwerthuso damcaniaethau yn unig a dylent leihau'r amser addysgu a dysgu sy'n perthyn i ddadleuon ehangach. Mae'r pwysoli a'r sgiliau ar draws y cymhwyster yn dal i fod yr un fath. Gall athrawon ganolbwyntio felly ar safbwyntiau damcaniaethol ac esboniadau a amlinellir yn ymhelaethiad pob testun yn y fanyleb.

Cymraeg Iaith Gyntaf

UG

Uned 1: Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd – Arholiad Llafar (15%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Asesiad Diarholiad (10%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 3: Defnyddio Iaith a Barddoniaeth – Arholiad Ysgrifenedig (15%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

U2

Uned 4: Y Nofel a Llafaredd – Arholiad Llafar (20%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 5: Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r Cywyddau – Arholiad Ysgrifenedig (20%)

Adran B – Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Lleihau nifer y cerddi gosod gan un o'r beirdd - Dafydd ap Gwilym o 3 i 2. Bydd cyfanswm nifer y cerddi yn mynd i lawr o 7 i 6.

Y gerdd osod fydd DDIM yn cael ei hasesu yn 2021 yw 'Yr Wylan'.

Uned 6: Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun – Arholiad Ysgrifenedig (20%)

Adran B – Y Gymraeg mewn Cyd-destun

Lleihau nifer y ffurfiau ysgrifennu i'w hastudio o 7 i 5.

Y ffurfiau asesu fydd DDIM yn cael eu hasesu yn 2021 yw:

- Cofnodion cyfarfod
- Anerchiad/Araith.

Sail resymegol

Bydd lleihau nifer y cerddi i'w hasesu yn Uned 5 a symleiddio ffurfiau ysgrifennu penodol yn Uned 6 yn ystyried y golled amser addysgu a dysgu ac yn sicrhau ar yr un pryd bod pob asesiad yn parhau i fod yn ddilys a dichonadwy.

Cymraeg Ail Iaith

UG

Uned 1: Ffilm a Llafaredd – Arholiad Llafar (15%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 2: Asesiad Diarholiad (10%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 3: Defnyddio iaith, a Barddoniaeth – Arholiad Ysgrifenedig (15%)

Adran B – Barddoniaeth

Does dim newidiadau i'r uned hon.

U2

Uned 4: Drama a Llafaredd – Arholiad Llafar (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

Uned 5: Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu – Arholiad Ysgrifenedig (15%)

Adran A – Y Gymraeg yn y Gymdeithas

Lleihau cyfnod yr astudiaeth o'r Gymraeg yn y gymdeithas o ganol yr 20fed ganrif hyd heddiw i'r 1980au hyd heddiw.

Uned 6: Defnyddio iaith a'r Stori Fer – Arholiad Ysgrifenedig (20%)

Adran B – Y Stori Fer

Lleihau nifer y straeon byrion i'w hastudio o 4 i 3. Y testun gosod fydd DDIM yn cael ei asesu yn 2021 yw 'Trŵ lyf' (*Cariad Pur?*: Marlyn Samuel).

Sail resymegol

Bydd lleihau'r cyfnod astudio i'w asesu yn Adran A, Uned 5, a lleihau nifer y straeon byrion o 4 i 3 yn Uned 6 yn ystyried y golled amser addysgu a dysgu ac yn sicrhau ar yr un pryd bod pob asesiad yn parhau i fod yn ddilys a dibynadwy.